SKSPRP12

# Clirio setiau sydd wedi'u gwisgo pan fydd cynhyrchiad wedi gorffen

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â chlirio setiau sydd wedi'u gwisgo, gan gynnwys datgymalu a phacio addurniadau a chelfi setiau a'u dychwelyd at i'r lleoliad/cyflenwr priodol, neu eu storio neu gael gwared arnynt yn ddiogel a phriodol.

Gall celfi naill ai fod yn rhai sydd wedi'u llogi neu rheiny sy'n perthyn i'r cwmni cynhyrchu, neu yn gynnyrch lleoli, neu yn rhain i gyd.

Efallai bydd y safon hon yn addas ar gyfer rôl y sawl sy'n gyfrifol am Wisgo Celfi, Celfi wrth Gefn a Phrentisiaid Celfi ac Arolygwr Celfi.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. gweithio yn ôl yr amserlen weithgareddau benodol
2. cyflawni'r tasgau clirio yn y drefn gywir er mwyn sicrhau bod y gwaith yn cael ei gwblhau yn ôl yr amserlen glirio
3. gwirio bod celfi yn cyd-fynd gyda rhestrau eiddo a chael deunyddiau pacio er mwyn cwrdd ag amserlenni clirio
4. datgymalu addurniadau setiau, eu trefnu fel bod modd eu hadnabod, labelu, cofnodi a'u dychwelyd neu eu storio yn briodol
5. gwirio'r holl gelfi yn ôl y ddogfennaeth berthnasol
6. asesu a oes modd atgyweirio neu amnewid eitemau sydd wedi'u difrodi ar gyfer y cynhyrchiad
7. diweddaru cofnodion ac adrodd am bob eitem sydd wedi'i difrodi i'r staff perthnasol
8. trin a phacio eitemau er mwyn sicrhau cludiant diogel ymlaen
9. pacio eitemau i gwrdd ag amserlenni cysondeb cynhyrchiad
10. storio eitemau i gynnal eu cyflwr a'u diogelwch a'u gwneud yn hawdd eu cyrraedd i'w defnyddio yn y dyfodol
11. trin a gafael mewn eitemau trwm neu swmpus yn unol â'r ddeddfwriaeth, rheoliadau a phrotocolau iechyd a diogelwch perthnasol
12. cwblhau cofnodion yn ôl y gofyn
13. gwirio a chadarnhau bod eitemau nad oes eu hangen mwyach yn cael eu dychwelyd, yn eu cyflwr cytunedig, neu eu hailgylchu neu eu gwaredu yn briodol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. yr amserlenni a'r terfynau amser cytunedig ar gyfer clirio setiau
2. sut i wirio ydy cadarnhad clirio set wedi'i dderbyn a gan bwy
3. tasgau clirio set arferol a sut i'w hadnabod
4. mathau o addurniadau a chelfi set, eu nodweddion a'u defnydd, a sut cânt eu datgymalu, pacio a chludo fel arfer
5. gweithdrefnau ar gyfer gwirio a chadarnhau cyflwr ac adnabod celfi ac addurniadau set
6. gweithdrefnau ar gyfer ymdrin ag eitemau coll neu sydd wedi'u difrodi
7. sut i adnabod pa eitemau fydd eu hangen yn y dyfodol gan gynnwys pecynnau clirio set
8. sut i drin, pacio a symud eitemau yn ddiogel gan gynnwys defnyddio dulliau peiriannol i helpu
9. pa gelfi a deunyddiau mae modd eu hailgylchu neu eu gwaredu a'r dulliau ailgylchu neu waredu perthnasol
10. gofynion deddfwriaeth, rheoliadau a phrotocolau iechyd a diogelwch perthnasol
11. gofynion y ddogfennaeth
12. sut i sicrhau bod yr holl gelfi yn cael eu dychwelyd yn eu cyflwr cytunedig

SKSPRP12

Clirio setiau sydd wedi'u gwisgo pan fydd cynhyrchiad wedi gorffen

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | ScreenSkills |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 30 Maw 2022 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 30 Maw 2026 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | ScreenSkills |
| **RCU gwreiddiol** | SKSPRP12 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Cyfryngau a chyfathrebu, Celfyddydau Perfformio, Celfyddydau, Cyfryngau a Chyhoeddi, Crefftau, y celfyddydau creadigol a dylunio, Pobl Broffesiynol Cyswllt y Cyfryngau |
| **Cyfres/Set** | Celfi ar gyfer Cynyrchiadau |
| **Geiriau Allweddol** | celfi; clirio setiau sydd wedi'u gwisgo; cynhyrchiad; cysondeb golygfeydd; amserlenni cynhyrchu; |